

CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 7.30 y.h. ar Nos Lun 21.09.26

Yn Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed

Yn Bresennol: Cyng. Amy Evans, Cyng. Delme Phillips(Is-Gadeirydd), , Cyng. Elfed Davies, Cyng. Bryan Davies, Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Aled Jones.

Clerc: Enid Davies

Cyfieithydd: Hefin Jones

Ymddiheuriadau: Cyng. Eifion Jones a'r Cyng. Robin Bowen

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

41.Datgelu Buddianau Personol:

Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Cyngor a oedd ganddynt unrhyw fuddiannau i'w datgan yn y busnes i'w drafod - dim.

42. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfodydd diwethaf.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20.07.26 yn gopi cywir - cynigiwyd gan y Cyng. A.Jones ac eiliwyd gan y Cyng. B. Davies.

43.Materion i'w hadrodd

- a. Materion Priffyrdd: - gweler o dan adroddiadau materion priffyrdd.
- b. Cyfleusterau Cyhoeddus a Neuadd Cynwyl Elfed -gweler o dan adroddiadau is-bwyllgorau.
- c. Bwrdd Hysbysiadau Hermon - Nid yw'r Cyng. B.D. wedi cael amser eto; bydd yn edrych i mewn i'r mater o ran atgyweirio ac yn gwneud hynny yn ystod y mis nesaf.
- d. Hysbysebu am glerc newydd - mae'r hysbyseb wedi'i anfon at Un Llais Cymru a'r SLCC i'w rhannu, ac mae'n cael ei arddangos ar hysbysfwrdd y Cyngor. Mae'r clerc wedi cael gwybod bydd y gost o hysbysebu yn Cwllwm, a dyfynnwyd ffi o £30. Bydd y Clerc yn trefnu gosod hysbyseb yn Cwllwm yn ogystal ag ar wefan y Cyngor.
- e. Sioe Clwb Ffermwyr Ifanc, Cynwyl Elfed - Cynhaliwyd y Sioe ar 29 Awst - Trefnodd y clerc i osod bwrdd ar ran Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed. Bu'r clerc yn gofalu am y bwrdd am gwpl o oriau, ac yna cymerodd y Cyng. Delme Phillips a'r Cyng. Elfed Davies yr awenau o ganol dydd ymlaen. Cyflwynodd y Cyng. Phillips adroddiad ar bryderon a godwyd gan aelodau o'r cyhoedd, materion yn ymwneud â phriffyrdd yn bennaf. Gofynnodd y Cyngor hefyd i bobl lenwi'r holiadur ynghylch Cae Chwarae Bro Elfed, a hysbysebu'r angen am wirfoddolwyr i ymuno â phwyllgor y parc neu i helpu mewn unrhyw ffordd.

44.Gohebiaeth.

Nodir bod copïau o'r e perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr drwy e-byst.

- Seminar Gwirfoddolwyr Argyfyngau Sifil Sir Gaerfyrddin (22.10.26) ar gyfer Clerciau Tref a Chymuned - Enid Davies a'r Cyng. Julian Evans i fynychu.
- Digwyddiad Rhanbarthol Cymunedau Gwydn Sir Gaerfyrddin 7.10.26 -nodwyd.
- Un Llais Cymru - Lleoedd Hyfforddiant am Ddim - eglurhad - nodwyd.
- Digwyddiad ar y cyd U.L.I.C. a SLCC 18.11.26 - nodwyd.
- Cynnigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol U.L.I.C. 2027 - erbyn hanner dydd ar 4 Rhagfyr 2026 - Penderfynwyd cyflwyno'r cynnig ynghylch Enwau Lleoedd Cymreig. Bydd y Cynghorwyr BD a DP yn gwirio strwythur a geiriad y cynnig arfaethedig.
- Angor - Cais am arian - Nodwyd hyn a bydd manylion y cynllun Adran 137 yn cael eu hanfon ymlaen.
- Un Llais Cymru Pwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin 5.10.26 - Y Cyng. Amy Evans a'r Cyng. Bryan Davies i fynychu.
- Un Llais Cymru Cynhadledd Arfer Arloesol 30.09.26 -Cyhoeddodd y Cyng. B.D. ei fod wedi ennill dau docyn ar gyfer y gynhadledd hon - penderfynodd y Cyngor bod y Cyng. B.D. a'r Cyng. D.P. i fynychu ar ran y Cyngor.

- Cyngor Sir Gaerfyrddin, Cyfleoedd ariannu'r Biwro - Gwiriadau iechyd digidol am ddim - nodwyd.

45.Cynllunio

PL/11245 - Atgyweiriadau/adnewyddu- Capel Bethel, Cynwyl Elfed:

Esboniodd y Clerc fod y Llythyr Ymgynghori wedi'i dderbyn ddydd Gwener 18 Medi, sef y diwrnod ar ôl cyhoeddi a dosbarthu'r agenda. Roedd y Llythyr Ymgynghori wedi'i ddosbarthu i'r cynghorwyr ar fore Llun 21.09.26. Nodwyd mai 09.10.26 oedd dyddiad cau'r ymgynghoriad. Roedd copïau caled o'r dogfennau a oedd wedi'u cyhoeddi ar lein ar gael i'w harchwilio. Penderfynodd y Cyngor drafod y mater yn y cyfarfod oherwydd y cyfyngiad amser. Barn cyffredinol yr aelodau oedd eu bod yn Falch bod Capel Bethel wedi'i brynu a bod gwaith atgyweirio yn mynd i gael ei wneud.

Penderfynodd y Cyngor beidio â chefnogi'r cais cynllunio am y rhesymau canlynol: Cododd y cais ar gyfer Capel Bethel, adeilad rhestredig Gradd ii, sawl pryder:

- Manylion Anghyflawn: Mae'r ffurflen gais yn eang, gyda bwlch yn y cofnodion sy'n methu â sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfamodau cyfyngu.
- Diffyg Tystiolaeth: Nid oes sail i'r datganiad am cefnogaeth frwdfrydig y gymuned, heb unrhyw dystioleth gyhoeddedig i wirio hyn.
- Tystiolaeth Ffotograffig ddim ar gael: Er bod y cais yn sôn am ffotograffau, ni chyhoeddwyd yr un ohonynt yn ystod y cyfarfod.
- Defnydd, Amserlen Anghywir: Mae'r cais yn portreadu defnydd diweddar y Capel yn anghywir. Nododd cynghorwyr lleol fod gwasanaethau, gan gynnwys angladd, wedi digwydd o fewn y ddw flynedd ddiwethaf, gan danseilio honiadau o ddiffyg defnydd. Roedd drwn ffront, y wal a'r rheiliau wedi cael eu hatgyweirio yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.
- Pryderon Treftadaeth a Theuluol: Mae cofebau y tu mewn i'r Capel yn coffáu dynion lleol a gollodd eu bywydau yn ystod y ddau Ryfel Byd. Mae pryder ynghylch gallu'r teuluoedd i ymweld a thalu parch.
- Ymgynghoreion Statudol: Ni allai'r clerc gadarnhau cyfranogiad yr ymgynghoreion statudol disgwylidig, gan dynnu sylw at yr angen posibl am gytundebau gyda CADW neu gyrff cyfatebol oherwydd statws yr adeilad.
- Dechrau gwaith cynamserol: Er gwaethaf arwyddion na fyddai'r gwaith yn dechrau cyn cymeradwyaeth, mae tystiolaeth yn awgrymu ei fod eisoes wedi dechrau.
- Ar y cyfan, mae'r cais yn ymddangos yn anghyson ac yn amwys.

46.Taliadau a Chyllid

Taliadau:

- Maria Thomas mis Medi 2026 - £230.00
- ME Davies Cyflog y clerc. 07/26 £9 08/26 £324.00 £333.00
- Trydan EDF 26.7. 2026 Credid £184.46 26.7.26-01.09.26 pris y trydan a ddefnyddiwyd £32.40 gan adael balans o £152.06 credid ar y cyfrif..
- Ultima Cleaning Limited - gweler adroddiad y cyfarfod bris a gynhalwyd ar 22.07.26 gan Pwyllgor y Cyfleusterau Glanhau peryglon biolegol £180.00
- Archwilio Cymru 2024/25 Archwiliad Llawn £806.60- clerc yn Aros am ymateb Archwilio Cymru gyda dadansoddiad o'r ffioedd a godir , hefyd mae'r clerc wedi cysylltu ag Un Llais Cymru.

Cymeradwyodd y Cyngor y taliadau uchod.

Derbyniadau

- 26.08.26 £8,294.00 ail taliad o praesept am 2026/27
- 04.09.26 £. 933.20 ad-daliad y Treth ar Werth a dalwyd yn ystod 2025/26

ADOLYGIAD - CYSONI DERBYNIADAU A THALIADAU

Adolygwyd y cyfrifon hyd at 30 Mehefin 2026 gan y Cyng. Amy Evans a nodwyd eu bod yn ymddangos yn gywir gan arwyddo'r gwaith cysoni cyfrifon a'r datganiadau banc i gadarnhau bod hyn wedi'i wneud.

47.Materion Priffyrdd:

Diweddariad ar materion adroddwyd ar 20.07.26.

- Derbyniwyd adroddiad peiriannydd ynghylch y bont ger Eglwys St. Cynwyl - hysbyswyd y Congor bod y bont yn eiddo preifat a bod y briffordd gyhoeddus U5474 yn dod i ben cyn y bont. Mae'r Cyng. Sir Bryan Davies wedi siarad â pherchennog y bont, ac maent bellach yn ymwybodol o adroddiad y peiriannydd.
- Adroddodd y Cyng. Bryan Davies eithr fod wedi mynychu cyfarfod gyd Cyfoeth Naturiol Cymru(CNC). Mae'r mater o symud coed sydd wedi syrthio i'r afon yn gymhleth. Mae'r coed yn symud ar hyd yr afon a gallant greu argae, gan achosi llifogydd a difrodi pontydd a strwythurau eraill. Perchenogion y tir ar ddwy ochr yr afon sy'n gyfrifol am symud y coed, ond mae angen caniatâd gan CNC cyn eu symud o'r afon. Penderfynwyd bod angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch cyfrifoldebau a'r difrod i bontydd ac ati, a'r ffordd orau o wneud hynny yw annog trafodaeth gyhoeddus. Cynigiwyd gan Cyng. Elfed Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Julian Evans.
- Ffordd heibio Penlanchwiler - wedi'i hatgyweirio.
- C1313 - Ffordd l'r Fynwent - cyflwr arwyneb y ffordd yn ofnadwy - ar restr yr Adran Priffyrdd.
- SA33 6ST U5463 -rhwng ychydig cyn NantyrEsg a Clungwyn.Gwnaeth gwaith atgyweirio dros dro.
- Cwmduad - mae angen palmant, ond adroddwyd nad oes adnoddau ar gael ar hyn o bryd.

Materion Priffyrdd adroddwyd ar 21.09.26

- Esgair*** - ar waelod Rhiw Pannau ger y tro - mae'r ffordd wedi dechrau erydu ac Mae twll Mawr a dwfn wedi ymddangos gyferbyn â mynedfa Panau.
- Ffynnon Henry*** - Gwter ar ochr y ffordd yn 3 troedfedd o ddyfnder mewn mannau.
- C2043 - Cynwyl Elfed*** - Penrhiwcrynfryn - Edges of the road on the left hand side has eroded causing the road to become narrower in places.
- Mae'r ffordd heibio Wauncordwns ar gau am ychydig ddyddiau*** - nid yw'r ffyrdd a ddefnyddir fel llwybr dargyfeirio C1313 Llethr Moel aBlaenycod hyd at Cwmgest yn addas ar gyfer cerbydau mwy. Nid oes arwyddion rhybuddio wedi'u gosod. Adroddwyd bod pobl leol wedi bod yn rhybuddio gyrwyr lorïau ac yn eu hatal rhag defnyddio'r llwybr dargyfeirio, and nad oedd y ffyrdd hynny'n ddiogel ar gyfer eu cerbydau. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Adran Priffyrdd ynghylch y mater hwn.
- SA33 6TL - ffosydd a draeniau yn llawn.***
- Palmant o flaen Bryn Erw - angen ei lanhau.***
- Adroddwyd bod 5 bin graean wedi'u difrodi ac angen eu newid.***
- Mae angen glanhau ac ail-lenwi'r holl finiau graean yn yr ardal cyn y tywydd rhewllyd.***
- Adroddiadau am bobl yn taflu gwastraff cŵn mewn i'r biniau graean.***
- Mae problem goryrru ar y ffordd trwy Cynwyl Elfed wedi gwaethygu - clerc i anfon cais i GanBwyll ddod i monitro.***

48. Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau a Sefydliadau

- **Cyfleusterau Cyhoeddus:**
- Cyfarfu'r clerc â'r peiriannydd a newidiodd y mesurydd trydan presennol i fesurydd newydd (smart meter).
- **Cae Chwarae Bro Elfed:**
- Cynhaliwyd digwyddiad codi arian ar thema Carnifal ar gae'r ysgol ar 15/08/2026. Mwynhaodd pobl ddiwrnod hyfryd a chodwyd dros £700 tuag at y parc. Diolchodd y Cyng. Amy Evans i bawb a fu'n gweithio'n galed yn ystod y dydd, ac i'r rhai a gymerodd ran gan wneud y diwrnod yn llwyddiant.
- Mae holiaduron wedi'u dosbarthu ledled yr ardal yn gofyn i bobl sut yr hoffent weld y parc yn cael ei ddatblygu; cafodd hyn hefyd ei hyrwyddo gan y Cyngor yn Sioe'r Clwb Ffermwyr Ifanc. Unwaith y bydd yr holiaduron wedi'u cwblhau bydd angen gwneud penderfyniadau ynghylch y ffordd ymlaen.
- Hysbysodd y Cyng. Amy Evans y cyfarfod, yn unol â'r cyfansoddiad gwreiddiolm y dylai'r pwyllgor gynnwys o leiaf deg o bobl, ond bod y pwyllgor yn cael trafferth recriwtio gwirfoddolwyr. Anogir cynghorwyr i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor.

- Adroddodd y Cyng. A.E. fod pwyllgor y parc wedi llenwi ffuflen i geisio cyllid gan y Loteri Genedlaethol.

Canolfan Cymdeithasol Cynwyl Elfed

Mae'r Neuadd ar agor bob bore Sadwrn rhwng 10:00 a 12:00 canol dydd i wirfoddolwyr lanhau a gwneud gwaith i gynnal a chadw'r neuadd.

49.Unrhyw Fater Arall.

- **Polisi Cadw a Gwaredu Dogfennau** - Penderfynwyd rhoi hyn ar agenda mis Hydref.
- Soniodd y Cyng. A.E. fod y bin casglu dillad sydd wedi'i drefnu gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (PTA) yn yr ysgol yn cael ei ddefnyddio'n helaeth, a bod angen ail fin; bydd y Gymdeithas yn ysgrifennu at Bwyllgor y Neuadd i ofyn am ganiatâd is osod ail fin ar dir y Neuadd.

50. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf ar: Nos Lun, **19 mis Hydref 2026**
am: **7:30** yr hwyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 21.25 o'r gloch.

.....
Cyng. A. Evans (Cadeirydd)

.....
Dyddiad.